Golygfa Saith

Ben yn cerdded yn ôl ar y llwyfan gyda gweddill y cast ac maen nhw'n gwneud pedwar pwynt o amgylch Ben a Chloe

Ben — Oh, 'na ti Chloe. Dwi'n siŵr nei di feddwl am ryw ffordd o ddeud sori wrtha' i.

'Sweet Dreams' Marilyn Manson yn chwarae, y cast i gyd heblaw Ben yn disgyn yn araf i'r llwyfan ac yn gorwedd ar y llawr gan wingo fel pe baen nhw mewn poen dirfawr. Ben yn plygu'n araf ac yn codi Chloe i fyny. Mae o'n codi ei gên ac yn gwthio'i gwallt i ffwrdd oddi ar ei hwyneb. Chloe'n troi i redeg i ffwrdd ond mae o'n ei thynnu hi'n ôl. Yna mae o'n gafael mewn eitem o ddillad Chloe ac yn ei dynnu'n araf wrth iddo gerdded o'i hamgylch, yna'n agor ei felt ac yn gwthio Chloe i lawr yn araf ac yna'n gorwedd ar ei phen. Y goleuadau'n mynd i lawr, y cast yn gadael y llwyfan a phan ddaw'r goleuadau'n ôl i fyny, mae Chloe'n ceisio gafael yn ei dillad ac yn crio.

**Popeth yn mynd yn ddu**